




RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:  
35/2017  
DYDDIAD CYHOEDDI:  
6 GORFFENNAF 2017

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

## Cam 2, Mehefin 2017



## Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru: Cam 2, Mehefin 2017

Anthony Lydall a Laura Nesbitt, Strategic Research and Insight



Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr. Robert Lewis, Pennaeth Ymchwil Twristiaeth, [robert.lewis@wales.gsi.gov.uk](mailto:robert.lewis@wales.gsi.gov.uk)

Adran: Adran Gwyddoniaeth, yr Economi a Thrafnidiaeth

Canolfan QED

Ystâd Trefforest

Pontypridd

Rhondda Cynon Taf

CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6026

ISBN: 978-1-4734-9895-2

6 Gorffennaf 2017

© Hawlfraint y Goron 2017



Mae'r cynnwys i gyd ar gael o dan fersiwn 3.0 Trwydded Agored y Llywodraeth, ac eithrio lle nodir fel arall.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

## Cynnwys

1. PRIF GANFYDDIADAU.....	2
2. CANFYDDIADAU ANSODDOL.....	4
3. CEFNDIR A METHODOLEG.....	6
5. PERFFORMIAD YN Y FLWYDDYN HYD YN HYN.....	8
6. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR.....	12
7. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR.....	13
8. PROFFIDIOLDEB.....	14
9. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HAF.....	16
10. BWYD A DIOD O GYMRU.....	19

## **1. PRIF GANFYDDIADAU**

### **Cynnydd gweddol i'r rhan fwyaf o sectorau**

- 1.1 Dros hanner tymor Mai/Mehefin, croesawodd cyfrannau da o'r rhan fwyaf o sectorau fwy o ymwelwyr o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Ar y cyfan, mae traean (32%) yn nodi iddynt gael mwy o ymwelwyr.
- 1.2 Gwelodd cyfrannau uwch o atyniadau/gweithredwyr gweithgareddau (43%), bwytai/tafarndai/caffis (42%) a llety â gwasanaeth (41%) gynnydd, o'i gymharu â llety hunanddarpar (16%).

### **Gemau terfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA yn rhoi hwb i'r de-ddwyrain**

- 1.3 Ar ddechrau mis Mehefin, tyrrodd cefnogwyr pêl-droed i Gaerdydd a'r ardal o amgylch ar gyfer gemau terfynol y dynion a'r merched yng Nghynghrair y Pencampwyr UEFA. Gwelwyd cynnydd mawr mewn busnes i lawer, gyda 41% yn y de-ddwyrain yn nodi iddynt gael mwy o ymwelwyr dros wyl y banc – 47% o'r rhain yn dweud bod y gemau pêl-droed wedi cyfrannu at y cynnydd.

### **Uchafbwyntiau ac isafbwyntiau'r tywydd**

- 1.4 Roedd tywydd amrywiol ledled Cymru dros hanner tymor yn golygu ei fod wedi bod yn fanteisiol i rai busnesau tra oedd eraill yn credu mai dyma pam y cawsant lai o ymwelwyr.

### **Ennill a cholli trwy geisio arbed arian**

- 1.5 Dywed rhai busnesau bod mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU, wrth iddynt geisio lleihau costau eu seibiannau a gwyliau. Ond gyda llai o arian yn cael ei wario, mae busnesau eraill yn nodi bod diffyg arian pobl yn arwain at lai o niferoedd o ymwelwyr.

### **Cynnydd mewn proffidioldeb**

- 1.6 Dywed un rhan o dair (33%) o fusnesau bod proffidioldeb ar i fyny hyd yn hyn eleni, o'i gymharu â 2016. Mae'r sector atyniadau a gweithgareddau cyfunol yn gweld mwy o gynnydd nac eraill, gyda hanner ohonynt (51%) yn nodi bod busnes ar i fyny.

### **Mae'r haf yn edrych yn ddisglair**

- 1.7 Mae busnesau'n edrych ymlaen yn ffafriol at dymor yr haf. Mae bron i ddau ym mhob pump (37%) yn disgwyl mwy o ymwelwyr na'r llynedd, ac mae cyfran debyg (39%) yn hyderus wrth fynd i mewn i fisoedd yr haf.

### **Cwsmeriaid yn ysu am gynnyrch o Gymru**

1.8 Mae mwyafrif cadarn (87%) o fusnesau sy'n gweini bwyd a diodydd i'w cwsmeriaid yn dweud eu bod yn cynnig cynnyrch o Gymru. Mae cyfrannau uchel o'r busnesau hyn yn gweini cig (67%), llaeth (66%) a/neu wyau (65%).

### **Hyrwyddo cynnyrch o Gymru'n digwydd yn fewnol yn bennaf**

1.9 Er bod dros hanner y busnesau sy'n cynnig bwyd Cymreig yn hysbysu cwsmeriaid am hynny trwy gyfrwng bwydlen (55%) ac ar lafar (54%), dim ond chwarter ohonynt (24%) sy'n gwneud hynny trwy gyfrwng deunyddiau hyrwyddo.

1.10 Mae deunyddiau hyrwyddo'n cynnwys eu gwefan a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

## **2. CANFYDDIADAU ANSODDOL**

- 2.1 Rydym wedi cynnal cyfweiliadau manwl dros y ffôn gyda ffigurau twristiaeth allweddol ar draws sefydliadau a chyrrff amrywiol ledled Cymru.
- 2.2 Trafodir y prif ganfyddiadau isod.

### **Canlyniadau cymysg dros hanner tymor**

- 2.3 Mae perfformiad dros hanner tymor Mai/Mehefin wedi creu canlyniadau amrywiol i'r diwydiant twristiaeth. I rai, cafwyd cynnydd mawr, ond cafodd eraill lai o ymwelwyr na'r disgwyl.

*“Mae'r hanner tymor diweddar wedi bod yn dda, yn bennaf oherwydd y tywydd.”*

*“Mae'r hanner tymor diweddar wedi bod yn llawer gwell na'r hanner tymor blaenorol.”*

*“Mae'r hanner tymor diweddar wedi bod fel ffair.”*

*“O ran ydyn nhw'n brysurach na'r llynedd – mae'n anodd dweud.”*

- 2.4 Efallai bod y Pasg hwyr wedi cael effaith negyddol ar niferoedd ymwelwyr dros yr hanner tymor mwyaf diweddar hwn, gan ei fod yn agos at wyliau'r Pasg ac nad oedd y tywydd cystal ag yr oedd dros hanner tymor y Pasg.

*“Nid yw'r hanner tymor diweddar wedi bod cystal, yn bennaf oherwydd y tywydd.”*

*“Roedd hanner tymor yn rhy agos at y Pasg.”*

### **Perfformiad yn gryf hyd yn hyn eleni**

- 2.5 Er gwaethaf canlyniadau cymysg dros hanner tymor, dywed rhai arweinwyr yn y diwydiant bod perfformiad yn well yn 2017 nag yr oedd y llynedd.

*“Hyd yn hyn eleni, mae niferoedd ein hymwelwyr yn sylweddol uwch, ond mae hon yn duedd sydd wedi bod yn digwydd am ychydig o flynyddoedd yn awr.”*

*“Mae teimlad cyffredinol ei bod yn eithaf bywiog ar hyn o bryd – mae llefydd yn brysur.”*

### **Llawer o hyder wrth fynd i mewn i'r haf**

- 2.6 Yn dilyn blwyddyn gref ar y cyfan, mae teimlad cadarnhaol yn y diwydiant twristiaeth wrth iddo agosáu at ei dymor prysuraf.

*“Mae busnesau'n hyderus wrth edrych ymlaen at yr haf ac mae'r rhan fwyaf yn llawn.”*

*“Rydym yn optimistaidd wrth symud ymlaen – gwneud ein gorau glas ac ati!”*

*“Mae pethau'n gadarnhaol wrth symud ymlaen. Mae archebion yn edrych yn dda ar gyfer misoedd yr haf.”*

## **Cefnogaeth gref i fwyd a diodydd o Gymru**

2.7 Dywed arweinwyr yn y diwydiant bod y defnydd o fwyd a diod o Gymru yn rhywbeth maent yn gefnogol iawn ohono. Mae cynnig y cynnyrch hwn yn rhywbeth sy'n helpu Cymru i fod yn unigryw, wrth gefnogi'r economi leol.

2.8 Mae hefyd yn rhoi synnwyr o 'le', gyda rhai cynhyrchion – fel bara lawr a chacennau cri – yn cael eu cysylltu'n uniongyrchol â'r wlad.

*“Rydym yn defnyddio cynnyrch lleol cymaint ag y gallwn. Mae pobl eisiau profi'r cynnyrch lleol pan fyddant yn ymweld ag ardal - mae'n rhoi teimlad gwirioneddol am yr ardal iddynt.”*

*“Rydym yn ceisio defnyddio cynnyrch Cymreig cymaint â phosibl. Mae'n bwysig i ni, ac mae'r ansawdd yn dda iawn. Mae hefyd yn helpu economi Cymru a'r amgylchedd. Mae'n bwysig i dwristiaid hefyd, i ddod a phrofi bwyd Cymru.”*

*“Mae cwrw a seidr Cymru'n dod yn eu blaen, felly rydym yn gwella, ond mae llawer o ffordd i fynd. Dylai pob un ohonom fod yn hyrwyddo cynnyrch o Gymru.”*

*“Mae pob un o'n safleoedd yn defnyddio cymaint o gynnyrch lleol â phosibl.”*

*“Mae gennym egwyddor gyffredinol i ddefnyddio cymaint o gynnyrch lleol â phosibl.”*

*“Mae'n bwysig i dwristiaid gael profi cynnyrch lleol ac i wybod o ble mae bwyd yn dod.”*

### 3. CEFNIDIR A METHODOLEG

#### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

- 3.1 Mae Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru wedi ei gynllunio i roi adborth cyflym ynglŷn â'r ffordd y mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r arolwg wedi bod yn rhedeg ar amrywiol ffurfiau ers 2005, ac arferir cynnal rhwng dau a phum 'cam' ymchwil bob blwyddyn.
- 3.2 Mae'r cam ymchwil hwn yn ymwneud â hanner tymor Mai/Mehefin 2017, gyda mesuriadau hefyd o ddisgwyliadau ar gyfer gweddill y flwyddyn.

#### Sut y cynhelir yr arolwg?

- 3.3 Mae'r arolwg hwn ar gael i'w lenwi ar-lein fel dewis arall yn lle ffonio, a oedd yr unig ddull a ddefnyddiwyd cyn 2016.
- 3.4 Rydym wedi cynnal 801 o gyfweiliadau dros y ffôn, ac mae'r arolwg ar-lein a ddisbarthwyd yn ôl ardal a phartneriaid sector wedi cynhyrchu 83 ymateb arall. Mae'r sampl gyfan o 884 yn golygu bod canlyniadau'r cwestiynau a ofynnwyd i bawb yn gywir i  $\pm 3.3\%$ .
- 3.5 Mae'r sampl o 884 ymateb yn adlewyrchu'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth:

Sector / Rhanbarth	Gogledd	Canolbarth	De-orllewin	De-ddwyrain	Cyfanswm
Llety â gwasanaeth	107	45	75	63	<b>290</b>
Llety hunanddarpar	100	50	98	33	<b>281</b>
Safleoedd carafanau / gweryslla	42	15	21	5	<b>83</b>
Hostelau	9	9	8	7	<b>33</b>
Atyniadau	36	13	19	32	<b>100</b>
Bwytai / tafarndai / caffis	10	12	7	14	<b>43</b>
Gweithredwyr gweithgareddau	18	11	17	8	<b>54</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>322</b>	<b>155</b>	<b>245</b>	<b>162</b>	<b>884</b>

- 3.6 Mae oddeutu tri o bob pump (59%) o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru ar hyn o bryd ac mae 41% heb eu graddio. Mae'r samplau sydd wedi eu graddio a'r




samplau nad ydynt wedi eu graddio wedi eu gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ar wahân i fwytai / tafarndai / caffis a gweithredwyr gweithgareddau, lle nad yw graddio yn berthnasol. Mae gweithredwyr bwytai, tafarndai a chaffis wedi eu dewis mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o dwristiaid ar draws gwahanol rannau o Gymru a gofynnwyd iddynt ateb cwestiynau yng nghyd-destun eu cwsmeriaid sy'n dwristiaid (h.y. nid cwsmeriaid lleol).

- 3.7 Cynhaliwyd pob cyfweiliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnes ym mis Mehefin. Cynhwysir copi o'r holiadur fel atodiad.

## 4. PERFFORMIAD YN Y FLWYDDYN HYD YN HYN

### PERFFORMIAD FESUL SECTOR



Maint y sampl: 808

#### Perfformiad derbyniol dros hanner tymor

- 4.1 Ar y cyfan, mae bron i un rhan o dair (32%) o fusnesau wedi profi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr dros hanner tymor Mai/Mehefin, o'i gymharu â'r llynedd.
- 4.2 Mae atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau wedi perfformio'n arbennig o dda, gyda 43% yn nodi derbyn mwy o ymwelwyr dros y cyfnod hwn. Ar gyfer 38% o'r sector hwn, credir bod y tywydd gwell wedi cyfrannu at y cynnydd.
- 4.3 Yr un sector sydd hefyd yn fwyaf tebygol o adrodd bod eu marchnata eu hunain wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr – dywed 38% o atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau eu bod wedi cael mwy o ymwelwyr oherwydd eu marchnata eu hunain, o'i gymharu â chyfartaledd o 18%.

#### Hanner tymor blasus i leoliadau bwyd

- 4.4 Mae bwytai, tafarndai a chaffis wedi mwynhau hanner tymor da, gyda 42% yn nodi iddynt dderbyn mwy o ymwelwyr o'i gymharu â'r un hanner tymor yn 2016.

*"Rydym yn mynd yn brysurach bob blwyddyn."*

Bwyty

*"Bron i ddwywaith cymaint o dderbyniadau â'r llynedd."*

Bwyty

## Hwb i lety â gwasanaeth

- 4.5 Croesawodd dau o bob pump (41%) o weithredwyr llety â gwasanaeth a ymatebodd fwy o ymwelwyr yr hanner tymor hwn. O'r rhain, dywed 22% bod y tywydd gwell wedi helpu'r cynnydd.
- 4.6 Mae rhai yn y sector hwn yn gweld ffrwyth buddsoddi yn eu busnes eu hunain, gan gymryd mwy o archebion oherwydd gwaith adnewyddu neu ymestyn.

*“Wedi buddsoddi llawer o arian yn y gwaith adnewyddu.”*

Llety â gwasanaeth

*“Rydym wedi adeiladu mwy o ystafelloedd.”*

Llety â gwasanaeth

*“Mae oherwydd gwaith ailwampio.”*

Llety â gwasanaeth

## Perfformiad da i hostelau

- 4.7 Dywed bron i ddau ym mhob pump (37%) o hostelau eu bod wedi derbyn mwy o westeion dros yr hanner tymor, a derbyniodd yr un gyfran (38%) yr un nifer o ymwelwyr â'r llynedd.
- 4.8 O'r rhai sydd wedi profi cynnydd, cred 27% ei fod oherwydd cynnydd mewn twristiaeth, ond mae 27% arall yn ansicr ynghylch pam mae niferoedd ymwelwyr yn uwch.

*“Nid wyf yn siŵr, ond rydym wedi cael mwy o archebion hyd yn hyn eleni.”*

Hostel

## Tywydd da yn denu'r gweryllwyr

- 4.9 Mae un rhan o dair (34%) o weithredwyr safleoedd carafanau a gweryylla wedi profi cynnydd mewn archebion, gyda 35% o'r rhain yn nodi gwell tywydd dros yr hanner tymor fel rheswm.

*“Cawsom dywydd da'r hanner tymor hwn felly cawsom fwy o ymwelwyr.”*

Safle carafanau a gweryylla

*“Cawsom dywydd gwych yr hanner tymor diwethaf hwn, a oedd yn golygu mwy o archebion.”*

Safle carafanau a gweryylla


## Llety hunanddarpar yn dal ei dir

- 4.10 Mae'r rhan fwyaf (63%) o weithredwyr llety hunanddarpar yn nodi niferoedd tebyg i'r llynedd. Yn wahanol i bob sector arall, dywed cyfran uwch (21%) eu bod wedi cael llai o ymwelwyr, o'i gymharu â'r rhai sydd wedi cael mwy (16%).

- 4.11 Adeg y Pasg eleni, perfformiodd y sector hunanddarpar yn well – nododd 29% fod perfformiad yn well a dywedodd 24% eu bod wedi cael llai o ymwelwyr nag yn ystod y Pasg blaenorol.
- 4.12 Mae rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â pham bod rhai wedi cael llai o ymwelwyr dros yr hanner tymor mwyaf diweddar, gyda 39% o'r rhai sy'n nodi bod busnes ar i lawr yn dweud nad ydynt yn gwybod pam. Mae eraill yn nodi'r hinsawdd economaidd (23%) a dirywiad twristiaeth yn yr ardal (21%).

*“Nid ydym yn siŵr pam fod busnes ar i lawr eleni, ond rydym yn gobeithio y bydd yn dechrau gwella.”*  
Llety hunanddarpar

## TUEDD O RAN PERFFORMIAD




### Gostyngiad bach yn y cynnydd mewn ymwelwyr

- 4.13 Caiff symudiadau yn niferoedd ymwelwyr eu dilyn ym mhob cam, fel yr amlinellir yn y siart uchod. Cyrhaeddodd cyfran yr ymatebwyr a nododd gynnydd ei anterth yn ail hanner 2016, gyda bron i hanner ohonynt (46%) yn derbyn mwy o ymwelwyr yng nghanam tri a phedwar. Ar

ddechrau'r flwyddyn hon, mae cyfran y rhai sy'n nodi cynnydd wedi gostwng i 37% yng ngham un a 32% yng ngham 2.

- 4.14 Yn hytrach, mae cyfrannau mwy wedi derbyn yr un faint o ymwelwyr. Yn y cam mwyaf diweddar hwn, mae bron i hanner (47%) yn nodi niferoedd tebyg i'r llynedd.

## PERFFORMIAD FESUL RHANBARTH



### Pêl-droed yn rhoi sgôr uchel i'r de-ddwyrain


- 4.15 De-ddwyrain Cymru yw'r ardal sydd â'r gyfran uchaf o fusnesau sydd wedi profi cynnydd dros yr hanner tymor, gyda dau ym mhob pump (41%) yn nodi iddynt dderbyn mwy o ymwelwyr. O'r rhain, dywed 47% bod gemau terfynol Cynghrair y Pencampwyr UEFA – a gynhaliwyd yng Nghaerdydd tua diwedd hanner tymor – wedi cyfrannu at yr hwb.

*"Yn bennaf oherwydd Cynghrair y Pencampwyr."  
Llety â gwasanaeth*

### Gweddill Cymru'n gwneud yn dda

- 4.16 Mae bron hanner yr ymatebwyr ym mhob un o'r rhanbarthau eraill yn nodi nifer tebyg o ymwelwyr o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2016.
- 4.17 Mae un rhan o dair (33%) yng ngogledd Cymru'n nodi cynnydd, 30% yng nghanolbarth Cymru, a 28% yn y de-orllewin.

## 5. RHESYMAU DROS GYNNYDD MEWN YMWELWYR



### Tywydd braf yn denu ymwelwyr


- 5.1 O'r ymatebwyr sydd wedi profi cynnydd dros hanner tymor, dywed bron i chwarter (23%) bod y tywydd wedi helpu i annog hwb yn nifer yr ymwelwyr.
- 5.2 Mae cyfrannau uwch o sectorau sy'n ddibynnol ar y tywydd – carafanau a gwerysilla (35%); atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau (38%) – yn nodi tywydd gwell fel rheswm dros y cynnydd.

### Mae gwyliau gartref yn dda i fusnes

- 5.3 Ar y cyfan, dywed 18% o'r busnesau sydd wedi croesawu mwy o ymwelwyr mai un o'r rhesymau dros y cynnydd hwn yw bod mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU. Mae'r sectorau hunanddarpar (30%) a sectorau carafanau a gwerysilla (23%) yn fwy tebygol o ddweud hyn.

*"Maen nhw'n dueddol o deithio o fewn y DU yn fwy nac yr oedden nhw."*  
Llety hunanddarpar

## 6. RHESYMAU DROS LAI O YMWELWYR



Maint y sampl: 171

### Ansicrwydd ynglŷn â llai o niferoedd

6.1 Nid yw bron i dri ym mhob deg (29%) o ymatebwyr sydd wedi derbyn llai o ymwelwyr dros hanner tymor yn gwybod pam y digwyddodd hynny, sy'n ei gwneud yn anodd mynd i'r afael â'r gostyngiad.

*"Hoffwn wybod pam, ond rydym wedi cael llai o ymwelwyr."*  
Llety hunanddarpar

### Yr economi'n chwarae rhan


6.2 Dywed un o bob pump (21%) o fusnesau sy'n nodi gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr bod yr hinsawdd economaidd yn cael effaith negyddol.

*"Yn anffodus, nid yw pobl yn gwario cymaint ag yr oeddent arfer ei wneud oherwydd yr hinsawdd economaidd."*  
Atyniad

### Y tywydd yn rhwystro rhai

6.3 Er bod y tywydd wedi helpu i gynyddu busnes i rai, dywed 20% o'r rhai a gafodd lai o ymwelwyr bod y tywydd wedi cyfrannu at y gostyngiad.

## 7. PROFFIDIOLDEB




### Proffidioldeb yn symud yn y cyfeiriad iawn

- 7.1 Ar y cyfan, dywed un rhan o dair (33%) o fusesau eu bod wedi cymryd mwy o elw hyd yn hyn eleni, o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.
- 7.2 Mae mwy o atyniadau (51%) wedi gweld cynnydd mewn proffidioldeb nac unrhyw sector arall. Mae dau o bob pump (40%) o fwytai / tafarndai / caffis hefyd wedi profi cynnydd mewn elw, ynghyd â 37% o safleoedd carafanau a gwर्सylla a 35% o lety â gwasanaeth.
- 7.3 Nid yw gweithredwyr llety hunanddarpar yn profi'r un cynnydd, ac mae 30% yn nodi llai o elw o'i gymharu â 21% sydd ar i fyny. Adeg y Pasg, nododd cyfrannau tebyg o ymatebwyr hunanddarpar fod elw ar i fyny (27%) i'r rhai a nododd ei fod ar i lawr (28%). Ond mae gostyngiad yn niferoedd yr ymwelwyr dros hanner tymor wedi cyfrannu at lai o broffidioldeb hyd yn hyn eleni.



## TUEDDIADAU O RAN PROFFIDIOLDEB




### Proffidioldeb yn dal ei dir

- 7.4 Nid yw'r elw a gymerwyd gan fusnesau yn y diwydiant twristiaeth wedi gwella cymaint ag yr oedd yr adeg hon y llynedd, ond mae un rhan o dair (33%) wedi gweld cynnydd, o'i gymharu â chwarter (25%) sy'n llai proffidiol.
- 7.5 Gan fod haf derbynol yn cael ei ragweld, y gobaith yw y dylai hyn godi erbyn i ni fynd i mewn i gam tri.

## 8. DISGWYLIADAU A HYDER AR GYFER YR HAF

### DISGWYLIADAU FESUL SECTOR



Maint y sampl: 791

#### Disgwyliadau eithaf ar gyfer yr haf


- 8.1 O'i gymharu â haf 2016, disgwylir i'r tymor nesaf hwn ddod â mwy o ymwelwyr i 37% o fusnesau.
- 8.2 Yn benodol, mae gan fwytai, tafarndai a chaffis ddisgwyliadau uchel, gyda 58% cryf yn rhagweld cynnydd yn nifer y twristiaid y byddant yn eu gwasanaethu.
- 8.3 Mae atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau hefyd mewn hwyliau da wrth fynd i mewn i fisoedd yr haf, gyda dros hanner (52%) yn gobeithio croesawu mwy o ymwelwyr.

#### Llety i wneud yn dda, ond yn sefydlog ar y cyfan

- 8.4 Ymysg yr ymatebwyr sy'n cynnig lle i ymwelwyr aros dros nos, ni ddisgwylir i'r haf ddod â'r cynnydd a fydd yn cael ei brofi gan leoliadau bwyd, atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau, ond mae arwyddion y bydd cynnydd i rai.
- 8.5 Mae angen i'r sector llety hunanddarpar barhau i weithio i ddenu mwy o ymwelwyr yr haf hwn. Ar hyn o bryd, mae cyfrannau tebyg yn disgwyl llai o ymwelwyr (21%) a mwy o

ymwelwyr (26%) dros y tymor brig. Mae'r rhan fwyaf (53%) yn rhagweld nodi niferoedd tebyg i'r llynedd.


## HYDER FESUL SECTOR



### Hyderus ar gyfer haf da

- 8.6 Mae misoedd yr haf, sydd yn aml yn dangos y perfformiad gorau i'r diwydiant twristiaeth, yn llenwi busnesau gyda hyder.
- 8.7 Mae mwyafrif helaeth pob sector yn dangos lefel gadarnhaol o hyder wrth fynd i'r tymor brig.

## TUEDD MEWN HYDER




### Hyder yn dal ei dir yn dda

- 8.8 Erys hyder o fewn y diwydiant twristiaeth yn gadarnhaol, gydag 87% o ymatebwyr yn nodi rhywfaint o hyder wrth fynd i mewn i dymor yr haf. Mae hyn yn cynnwys dau o bob pump (39%) sy'n 'hyderus iawn'.
- 8.9 Mae'r lefel dda hon o hyder wedi parhau ers Cam 1 eleni, a gafodd hwb gan Basg prysur.
- 8.10 Mae lefelau hyder wedi parhau i fod yn gadarn ers yr amser hwn y llynedd, pan oedd 40% yn 'hyderus iawn'.

## 9. BWYD A DIOD O GYMRU

### CYNNIG BWYD A DIOD O GYMRU




Gofynnwyd y cwestiwn hwn i ymatebwyr sy'n cynnig bwyd a diod i'w cwsmeriaid.

#### Y mwyafrif yn cynnig bwyd a diodydd o Gymru

- 9.1 O'r holl ymatebwyr sy'n cynnig bwyd a diodydd i'w cwsmeriaid, mae gan 87% rywfaint o gynnyrch sy'n cael ei wneud yng Nghymru.
- 9.2 Mae'r gyfran isaf (73%) o fusnesau sy'n cynnig bwyd a diodydd o Gymru yn y de-ddwyrain, o'i gymharu â chanolbarth Cymru (92%) a'r de-orllewin (91%).

## MATHAU O FWYD A DIODYDD O GYMRU



Gofynnwyd y cwestiwn hwn i ymatebwyr sy'n cynnig bwyd a diodydd Cymreig i'w cwsmeriaid.

### Cig Cymru'n fusnes mawr

- 9.3 Dywed dwy ran o dair (67%) o ymatebwyr sy'n gweini bwyd a diodydd o Gymru eu bod yn cynnig cig Cymreig i'w cwsmeriaid. Ar gyfer gweithredwyr llety â gwasanaeth, mae'r gyfran yn neidio i 90%.
- 9.4 Mae cyfrannau mawr o hostelau (75%) a bwytai, tafarndai a chaffis (71%) hefyd yn gweini cigoedd o Gymru, sy'n cynnwys cig oen, eidion, cyw iâr, porc a helgig.

### Digon o laeth Cymreig

- 9.5 Dywed dros hanner pob sector eu bod yn cynnig llaeth o Gymru i'w cwsmeriaid, gyda dwy ran o dair (66%) yn ei weini yn gyffredinol. Mae busnesau yng ngogledd Cymru'n fwy tebygol o wneud hyn, gyda 78% yn y rhanbarth yn cynnig llaeth Cymreig.

## **Marchnad benigamp i wyau Cymreig**

9.6 Fel cig a llaeth, mae dwy ran o dair (65%) o weithredwyr twristiaeth yn cynnig wyau Cymreig i'w cwsmeriaid. Eto, y sector llety â gwasanaeth sy'n dangos y gyfran uchaf (83%) o ymatebwyr yn cynnig y cynnyrch Cymreig.


## **Cyfran uchel o gynnyrch llaeth yn cael ei gynnig – ond llai yn y de-orllewin**

- 9.7 Ar y cyfan, dywed 59% o ymatebwyr eu bod yn cynnig cynnyrch llaeth Cymreig (heb gynnwys llaeth) i'w cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys caws, iogwrt, hufen iâ a menyn.
- 9.8 Ond mae'r gyfran yn llai yn y de-orllewin, gyda 38% yn dweud ei fod ar gael i'w cwsmeriaid.
- 9.9 Y sectorau atyniadau a gweithgareddau yw'r mwyaf tebygol o gynnig cynnyrch llaeth Cymreig (70%).

## **Digon o fwyd a diodydd eraill Cymreig ar gael**

- 9.10 Cynigir amrywiaeth o gynnyrch bwyd a diod arall Cymreig gan sectorau. Mae'r cyfrannau uchaf yn cynnwys:
- Alcohol – 76% o fwytai, tafarndai a chaffis
  - Llysiau – 63% o fwytai, tafarndai a chaffis
  - Nwyddau pob – 66% o weithredwyr hunanddarpar
  - Bwyd môr – 39% o fwytai, tafarndai a chaffis
  - Diodydd meddal – 47% o weithredwyr safleoedd carafanau a gwersylla

## HYRWYDDO BWYD A DIODYDD O GYMRU



Gofynnwyd y cwestiwn hwn i ymatebwyr sy'n cynnig bwyd a diodydd Cymreig ac yn hysbysu cwsmeriaid eu bod yn gwneud hynny.

### Hostelau a lleoliadau bwyd yn defnyddio bwydlenni i hyrwyddo

- 9.11 Ar y cyfan, mae 55% o ymatebwyr sy'n hysbysu eu cwsmeriaid am eu cynigion Cymreig yn gwneud hynny trwy gyfrwng eu bwydlenni.
- 9.12 Mae cyfrannau uwch o hostelau (75%) a bwytai, tafarndai a chaffis (71%) yn defnyddio eu bwydlenni i hysbysu eu cwsmeriaid am y bwyd a diodydd o Gymru sydd ar gael. Ac mae 65% o ddarparwyr llety â gwasanaeth hefyd yn amlygu cynnyrch o Gymru ar eu bwydlenni.

### Bloeddio am fwyd a diodydd o Gymru

- 9.13 Dywed dros hanner (54%) eu bod yn hysbysu eu cwsmeriaid ynglŷn â pha fwyd a diodydd o Gymru maent yn eu cynnig ar lafar. Mae hyn yn fwy gwir yn achos llety â gwasanaeth, y mae 61% ohonynt yn nodi eu bod yn dweud wrth eu cwsmeriaid ar lafar am unrhyw gynnyrch Cymreig sydd ar gael ganddynt.

### Deunyddiau hyrwyddo rhagweithiol

- 9.14 Dywed oddeutu chwarter (24%) o ymatebwyr eu bod yn defnyddio deunyddiau hyrwyddo – sy'n cynnwys fersiwn wedi ei hargraffu ac ar wefan – i ddweud wrth gwsmeriaid a chwsmeriaid posibl am eu cynnyrch Cymreig.
- 9.15 Mae atyniadau a gweithredwyr gweithgareddau'n fwy tebygol o ddefnyddio deunyddiau hyrwyddo (36%).



## **Pecynnau croeso**

- 9.16 Ar y cyfan, dim ond 4% o ymatebwyr sy'n dweud eu bod yn defnyddio pecynnau croeso – ond gweithredwyr hunanddarpar yw pob un ohonynt.
- 9.17 Dywed chwarter (26%) o'r sector hwn bod y pecynnau croeso maent yn eu gadael i westeion yn cynnwys bwyd a diodydd o Gymru, gyda nodiadau neu labeli'n tynnu sylw at y cynnyrch Cymreig.

# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru

## Holiadur Mis Mehefin 2017

- Sector Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?
- Llety â gwasanaeth .....
  - Llety hunan arlwyo .....
  - Maes carafannau / pebyll .....
  - Hostel .....
  - Atyniad .....
  - Cynnal gweithgaredd .....
  - Bwyty / tafarn / caffi .....
- Q1 A yw eich busnes wedi'i sefydlu am fwy na 12 mis?
- Do .....  Go to Q2
- Naddo .....  Go to Q8
- Q2 O gymharu â'r mis Mai/Mehefin hanner tymor y llynedd, faint o ymwelwyr yr ydych chi wedi'u cael yr hanner tymor hwn?
- Yn fwy na'r llynedd .....
  - Tua'r un peth ag y llynedd .....
  - Yn llai na'r llynedd .....
  - Ddim yn gwybod .....
- Q3 Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael mwy o ymwelwyr? (Ticiwch bob un perthnasol)
- Tywydd gwell .....
  - Marchnata eich hun .....
  - Busnes dychwel .....
  - Adferiad economaidd .....
  - Mwy o archebion trwy asiant ar-lein (e.e. booking.com) .....
  - Wedi arwyddo fyny i asiantaeth newydd (hunan arlwyo) .....
  - Argymhellion .....
  - Cynnydd mewn twristiaeth .....
  - Mwy o le / ystafelloedd .....
  - Rownd Derfynol Cynghair y Pencampwyr .....
  - Digwyddiadau arall yn yr ardal .....
  - Ystafelloedd neu gyfleusterau gwell .....
  - Mwy o bobl Prydain yn aros yn y DU .....
  - Mwy o ymwelwyr tramor .....
  - Ddim yn gwybod .....
  - Arall .....
- Nodwch reswm / resymau eraill \_\_\_\_\_
- Q4 Pam fydddech chi'n dweud eich bod wedi cael llai o ymwelwyr? (Ticiwch bob un perthnasol)

- Tywydd .....
  - Pasg Hwyr .....
  - Ddim wedi hyrwyddo'r busnes / busnes dirwyn i lawr .....
  - Problemau annisgwyl .....
  - Hinsawdd economaidd .....
  - Cystadleuaeth gref .....
  - Twristiaeth wedi gostwng yn yr ardal .....
  - Llai o ymwelwyr tramor .....
  - Llai o bobl Prydain yn mynd ar wyliau yn y DU .....
  - Ddim yn gwybod .....
  - Arall .....
- Nodwch reswm / resymau eraill \_\_\_\_\_

- Q5** Hyd yn hyn eleni, sut mae eich proffidioldeb ar y cyfan o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd?
- I fyny ar y llynedd .....
  - Tua'r un peth a llynedd .....
  - I lawr ar y llynedd .....
  - Ddim yn gwybod / well gen i ddim dweud .....

- Q6** *Cyfwelydd: cofnodi'r holl sylwadau defnyddiol ar berfformiad hyd yma / hanner tymor hwn.*
- \_\_\_\_\_

- Q7** Wrth edrych ymlaen at yr haf, sut ydych yn disgwyl nifer eich ymwelwyr i gymharu â haf diwethaf?
- I fyny ar haf diwethaf .....
  - Tua'r un peth ag haf diwethaf .....
  - I lawr ar haf diwethaf .....
  - Ddim yn gwybod .....

- Q8** Ar y cyfan, pa mor hyderus ydych chi ar gyfer tymor yr haf?
- Hyderus iawn .....
  - Eithaf hyderus .....
  - Ddim yn hyderus iawn .....
  - Ddim yn hyderus o gwbl .....
  - Ddim yn gwybod .....

- Q9** *Cyfwelydd: cofnodi'r holl sylwadau defnyddiol ar ddisgwyliadau ar gyfer yr haf.*
- \_\_\_\_\_

- Q10** A ydych ar hyn o bryd yn cynnig unrhyw fwyd a diod i gwsmeriaid?
- Ydw .....
  - Nac ydw .....

- Q11 A ydych ar hyn o bryd yn cynnig fwyd a diod Cymreig i gwsmeriaid? (Bwyd a diod a wnaed neu a gynhyrchir yng Nghymru)
- Ydw .....
- Nac ydw .....
- Ddim yn gwybod .....
- Q12 OS YDW: Pa fathau o fwyd a diod Cymreig ydych chi'n eu cynnig i'ch cwsmeriaid? (TICIWCH BOB UN SY'N PERTHNASOL)
- Dŵr .....
- Llaeth .....
- Wyau .....
- Cynhyrchion llaeth eraill - Caws/logwrt/Hufen ia/Menyn .....
- Cig - Cig Oen/Eidion/Cyw lâr /Porc/Anifeiliaid hela .....
- Te/Coffi .....
- Diodydd meddal .....
- Alcohol .....
- Llysiau .....
- Bwyd y Môr .....
- .....
- .....
- Arall .....
- Nodwch unrhyw atebion eraill \_\_\_\_\_
- Q13 Ydych chi'n rhoi gwybod i gwsmeriaid am y bwyd a diod Cymreig yn eich cynnig bwyd neu fwydlenni?
- Ydw .....
- Nac Ydw .....
- Ddim yn gwybod .....
- Q14 OS YDW: Sut ydych chi'n rhoi gwybod i gwsmeriaid am y bwyd a diod Cymreig chi'n eu cynnig? (TICIWCH BOB UN SY'N PERTHNASOL)
- Fwydlen .....
- Bwrdd cyflenwyr .....
- Ar lafar .....
- Deunyddiau hyrwyddo .....
- Bwrdd prydau arbennig .....
- .....
- Arall .....
- Nodwch unrhyw atebion eraill \_\_\_\_\_
- Q15 A hoffech ragor o wybodaeth am y defnydd o fwyd a diod Cymreig yn eich busnes?
- Hoffwn .....
- Na hoffwn .....
- Q16 OS HOFFWN: Allech chi roi eich manylion isod er mwyn cael gwybodaeth am y defnydd o fwyd a diod Cymreig yn eich busnes:

Enw

---

Cyfeiriad e-bost

---

---

Busnes

---

---

---

Q17 A yw eich busnes wedi'u graddio neu wedi'u hachredu gan Croeso Cymru / Visit Wales?

Do .....

Naddo .....

Diolch i chi am eich amser

Region Region of Wales

North .....

Mid .....

South West .....

South East .....

Company Company

---

LA LA

Blaenau Gwent .....

Bridgend .....

Caerphilly .....

Cardiff .....

Carmarthenshire .....

Ceredigion .....

Conwy .....

Denbighshire .....

Flintshire .....

Gwynedd .....

Isle of Anglesey .....

Merthyr Tydfil .....

Monmouthshire .....

Neath Port Talbot .....

Newport .....

Powys .....

Pembrokeshire .....

Rhondda Cynon Taf .....

Swansea .....

Torfaen .....

Vale of Glamorgan .....

Wrexham .....

ID *ID: Record from* \_\_\_\_\_  
*database*

